

# Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc - Cynllun Gwasanaeth Blynyddol 2017-22



Rhifyn 2021/22

# Cynnwys

<b>Cynnwys</b>	<b>Tudalen 1</b>
<b>Cyflwyniad</b>	<b>Tudalen 2</b>
<b>Cyllid</b>	<b>Tudalen 5</b>
<b>Cynllunio'r Gweithlu</b>	<b>Tudalen 6</b>
<b>Rhaglenni a Phrosiectau Newid Mawr 2020/21</b>	<b>Tudalen 7</b>
<b>Amcanion/Camau Gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth 2020/21</b>	<b>Tudalen 9</b>
<b>Mesurau Perfformiad</b>	<b>Tudalen 19</b>
<b>Rheoli Risg</b>	<b>Tudalen 21</b>

## Aelod(au) Cabinet a'r Pennaeth Gwasanaeth



**Y Cyngorydd Paul Cockeram**  
Yr Aelod Cabinet dros  
Wasanaethau  
Cymdeithasol



**Sally Ann Jenkins**  
Pennaeth Gwasanaethau  
Plant a Phobl Ifanc

# Cyflwyniad

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff sector cyhoeddus bennu amcanion Llesiant yn eu Cynlluniau Corfforaethol. Mae Cynllun Corfforaethol Cyngor Dinas Casnewydd 2017-22 wedi pennu pedwar Amcan Llesiant sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni 'Cynllun Llesiant' Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Casnewydd yn Un a hefyd Nodau Llesiant Cymru:






**Amcan Llesiant 1** – Gwella sgiliau, addysg a chyfleoedd cyflogaeth.

**Amcan Llesiant 2** – Hyrwyddo twf economaidd ac adfywio wrth amddiffyn yr amgylchedd

**Amcan Llesiant 3** – Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn

**Amcan Llesiant 4** – Adeiladu cymunedau cydlynol a chynaliadwy

Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Amcanion Lles, mae gwasanaethau'r Cyngor wedi gosod cynllun gwasanaeth pum mlynedd sy'n amlinellu eu hamcanion, eu camau gweithredu, eu mesurau perfformiad a'r risgiau o ran cyflawni'r Cynllun Corfforaethol. Mae pob un o'r amcanion a'r camau gweithredu hyn hefyd yn cefnogi datblygiad cynaliadwy a phum egwyddor y Ddeddf Llesiant:

Yn yr Hirdymor		Pwysigrwydd cydbwysu anghenion byrdymor â'r angen i ddiogelu'r gallu i fodloni anghenion hirdymor hefyd.
Atal		Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu ein helpu i fodloni'n hamcanion.
Integreiddio		Ystyried sut y gall amcanion llesiant cyrff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.
Cydweithio		Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion lles.
Cynnwys Pobl		Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau lles, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.

## Dyletswyddau Statudol Cyngor Dinas Casnewydd

Wrth ddarparu gwasanaethau'r Cyngor, ceir gwahanol ofynion deddfwriaethol a statudol i'r Cyngor gydymffurfio â hwy. Mae'r dyletswyddau statudol allweddol yn cynnwys (ymhlith eraill):

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Deddf Cydraddoldeb gan gynnwys Dyletswydd Economaidd Gymdeithasol

Deddf yr Iaith Gymraeg

Deddf Diogelu Data 2018 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2001.

Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015

Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015

### **Trosolwg o Wasanaethau Plant a Phobl Ifanc**

Pwrpas y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc yw *“Hyrwyddo a diogelu llesiant plant a phobl ifanc o fewn eu teuluoedd a lle nad yw hynny'n bosibl, darparu gofal amgen o ansawdd da”*.

Roedd yr heriau a wynebwyd gan ofal cymdeithasol plant cyn y pandemig yn cynnwys y pwysau aruthrol o ddydd i ddydd ar weithwyr cymdeithasol rheng flaen sy'n delio â phlant a theuluoedd sydd mewn perygl sylweddol, pwysau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â chanfyddiadau'r cyhoedd o risg a methiannau canfyddedig, maint yr angen ac ymdrin â disgwyliaid ac ofnau'r cyhoedd ac asiantaethau eraill, rheoli disgwyliaid newidiol o AGC, galwadau cynyddol sylweddol ar weithwyr cymdeithasol gan y farnwriaeth, dod o hyd i leoliadau addas ar gyfer plant ag anghenion cymhleth ac ymddygiad heriol, rheoli pwysau cyllidebol, yn enwedig y rheiny sy'n codi o gostau lleoliadau yn ogystal â chydbwysu tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o ran datblygiadau ymarfer a newidiadau mewn canllawiau, rheoleiddio a gofynion. Mae'r holl heriau hyn wedi'u dwysáu gan effaith sylweddol y pandemig ar blant a theuluoedd. Mae effaith salwch, profedigaeth, cyfyngiadau cloi gan gynnwys cau'r ysgol a gohirio'r holl weithgareddau arferol i blant, colli amser gyda ffrindiau a theulu a'r newidiadau yn incwm teuluol yn y tymor byr wedi cael canlyniadau negyddol a chadarnhaol i blant tra bydd yr effeithiau tymor canolig a hir yn anochel yn cymryd amser i ddod i'r amlwg yn llawn. I staff y Gwasanaethau Plant, mae effaith bersonol y pandemig i bawb wedi bod yn aruthrol. Bu'n rhaid ymgorffori a chrosawu newidiadau cyflym mewn arferion gwaith tra'n cydnabod effaith bersonol y newidiadau i bawb.

Nid yw'r ffactorau allweddol ar gyfer ein gwasanaethau wedi newid. Yn sylfaen i'n holl waith y mae cefnogi plant i aros yn ddiogel gyda'u teuluoedd. Mae ein pwyslais ar wasanaethau ataliol ochr yn ochr â chymorth i deuluoedd archwilio eu cryfderau a diwallu anghenion eu plant yn hanfodol i gyflawni'r canlyniad cyntaf hwn. Yn ail, pan fydd plant yn ein gofal ac yn gadael ein gofal rhaid i ni wneud popeth i'w cefnogi i sicrhau canlyniadau cadarnhaol. Mae plant a theuluoedd yn haeddu gwasanaethau sy'n wirioneddol gyfannol ac yn cydnabod natur amlochrog bywydau teuluoedd. Er mwyn sicrhau y gallwn weithio i ddiwallu'r angen yma, mae partneriaeth yn sail i'n gwasanaeth. Rydym yn gweithio gyda theuluoedd ac ystod eang o asiantaethau i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd gennym ac i gynnig y gwasanaethau gorau posibl.

Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn ceisio datblygu a gwella pob elfen o'r Gwasanaethau Plant er mwyn lleihau'n ddiogel nifer y plant sy'n derbyn gofal tra'n sicrhau bod y rhai sy'n derbyn gofal yn cael lleoliadau effeithiol a meithringar sy'n hyrwyddo dyheadau tan y byddant yn oedolion. Nid yw'r heriau ychwanegol o adfer a rheoli'r newidiadau angenrheidiol a achoswyd gan Covid 19 wedi newid yr hyn sy'n ein gyrru'n sylfaenol.

Mae Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i blant a theuluoedd sydd angen gofal a chymorth. Parhaodd ein holl dimau i ddarparu gwasanaethau drwy gydol y cyfyngiadau. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ychwanegol ar gyfer gweithredu'r Gwasanaethau Plant tra bod

yr ALLau yn gweithio gyda'i gilydd yn rhanbarthol i ddull gweithredu a rennir ledled Gwent gan adolygu'n rheolaidd wrth i'r sefyllfa newid. Fel gyda phob gwasanaeth, mae'r Gwasanaethau Plant wedi defnyddio strwythurau'r ALI gan gynnwys Aur i godi materion ac amlygu heriau.

**Gweithrediadau** – Mae'r timau hyn yn ymgymryd â gwaith pwyt cyswllt cyntaf ar gyfer atgyfeiriadau gan y cyhoedd ac asiantaethau eraill. Maent yn cynnal asesiadau, cynlluniau amlasiantaethol cyfarfodydd strategaeth a chynadleddau, yn cychwyn achosion gofal, prosesau llys a gweithgareddau eraill. Mae'r timau craidd yn y maes hwn yn cynnwys Canolfan Diogelu Casnewydd, timau Amddiffyn Plant a Phlant sydd angen Gofal a Chymorth, Asesu Mentora ac Ymgynghoriaeth, Tîm Plant Anabl, Timau Llwybr a'r Tîm Cyfiawnder Ieuencid.

**Adnoddau lleoli ar gyfer ein Plant sy'n Derbyn Gofal** – Mae'r timau'n darparu gofal uniongyrchol i blant sy'n byw mewn cartrefi preswyl, gwasanaethau maethu mewnol, lleoliadau y tu allan i'r sir, hyrwyddo cyflawniad addysgol, hyfforddiant a chymorth therapiwtig ar gyfer lles emosiynol a meddyliol. Mae'r timau craidd yn y maes hwn yn cynnwys Gwasanaethau Preswyl, y Tîm Maethu, y Tîm Teulu a Chyfeillion.

**Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd** - Mae'r timau'n darparu amrywiaeth o ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a gynlluniwyd i leihau risg mewn teuluoedd, gwella cydnerthedd ac osgoi'r angen am wasanaethau mwy aciwt. Maent yn gweithio gyda'r timau gwaith cymdeithasol rheng flaen i atal plant rhag dod i'r system ofal oni bai ei fod yn gwbl angenrheidiol. Maent yn cefnogi teuluoedd pan fydd plant yn cael eu hailsefydlu i ofal eu teuluoedd biolegol ac yn darparu cyswllt dan oruchwyliaeth a orchmynnir gan y llys yn ogystal â rhai rhaglenni allweddol y mae'r llysoedd yn gofyn amdanynt. Y timau dan sylw yw'r tîm Cymorth i Deuluoedd; Gwasanaeth Cwtch a Gwasanaethau Atal.

**Diogelu** – Mae'r tîm Diogelu yn gyfrifol am sicrhau bod pob plentyn sy'n agored i niwed yn cael ei amddiffyn a lle ceir tystiolaeth bod plentyn mewn perygl neu niwed bod prosesau effeithiol ar waith i wneud asesiad, ymchwilio a gweithredu os oes angen. Mae'r tîm Diogelu yn cydweithio â darparwyr gofal cymdeithasol eraill, byrddau iechyd, yr heddlu, addysg, y gwasanaeth prawf a sefydliadau eraill (yn fewnol ac yn allanol) drwy Fwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru.

Mae angen darllen y cynllun Gwasanaethau Plant ar y cyd â'r Strategaeth Comisiynu Gwasanaethau Plant, y Strategaeth Breswyl, yr adroddiadau Diogelu Corfforaethol, y cynlluniau a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar gyfer disgwyl gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal a'r cynllun gweithredu amlasiantaethol a baratowyd ar ôl Adolygiad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant mis Rhagfyr 2019.

# Cyllid

Cytunwyd ar gyllideb y Cyngor ar gyfer 2021/22 yng nghyfarfod y [Cyngor](#) ar 3 Mawrth 2021. Yn 2021/22 mae cyllideb refeniw sylfaenol y Gwasanaethau Plant wedi'i osod ar £26,743,000. Fel rhan o Gynllunio Ariannol Tymor Canolig y Cyngor, mae'r Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc wedi nodi arbedion i'w cyflawni dros y pedair blynedd nesaf. Mae'r arbedion canlynol wedi'u nodi yn y tabl isod a gellir cael rhagor o wybodaeth [yma](#).

Maes arbedion a nodwyd	Arbedion (£) 2021/22	Arbedion (£) 2022/23	Arbedion (£) 2023/24	Arbedion (£) 2024/25
Cau Cambridge House fel Cartref Plant	£254,000	£85,000	£0	£0
Arbedion ar draws gwasanaethau plant	£74,000	£0	£0	£0
Staffio	£35,000	£0	£0	£0
Gostyngiad mewn Costau Cyfreithiol	£20,000	£150,000	-	-

Nodir buddsoddiadau cyllidebol ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc dros y pedair blynedd nesaf isod a gellir cael rhagor o wybodaeth [yma](#).

Meysydd Buddsoddi Cyllidebol	Buddsoddiadau (£) 2021/22	Buddsoddiadau (£) 2022/23	Buddsoddiadau (£) 2023/24	Buddsoddiadau (£) 2024/25
Posibilrwydd o gollu cyllid y Gronfa Gofal Integredig (CGI) o fis Mawrth 2022 ar gyfer gwasanaethau statudol	£0	I'w gadarnhau	£0	£0
Galw am Wasanaethau Plant – Lle na ellir dod o hyd i leoliad addas arall, caiff lleoliadau fel Byngalo Brynglas, bythynnod a charafanau gwyliau eu defnyddio a'u staffio yn dibynnu ar angen/anghenion y plentyn. Rhagwelir gorwariant blynyddol o £200k.	£200,000	£0	£0	£0
Galw am Wasanaethau Plant – Rheoli eiddo i letya pobl ifanc (plant Prydeinig a phlant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches.	£300,000	£0	£0	£0

## Y Rhaglen Gyfalaf

Mae Cyngor Casnewydd yn gosod rhaglen gyfalaf helaeth i gyflawni prosiectau / cynlluniau seilwaith allweddol. Mae'r rhestr o gynlluniau a phrosiectau Cyfalaf ar gyfer 2020/21 i'w gweld [yma](#).



# Cynllunio'r Gweithlu

Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun gwasanaeth, mae'n bwysig llunio cynllun gweithlu sy'n canolbwyntio ar hyfforddi a datblygu staff ac i wella gwydnwch timau i sicrhau newid. Trwy gydweithio â Thîm Adnoddau Dynol y Cyngor, mae'r gwasanaeth wedi nodi'r camau canlynol i'w cyflawni yn 2021/22.

Cyf.	Cam Gweithredu	Rheswm/Rhesymau	Amcan(ion)	Swyddog Cyfrifol	Dyddiad Dechrau'r Cam Gweithredu	Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig
1	Adolygu a diweddarau hen ddisgrifiadau swydd a chyffredinol rhai rolau allweddol (lle bo'n bosibl)	Mae rolau swyddi a disgrifiadau swyddi yn y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc sydd wedi dyddio ac sydd angen eu diweddarau i adlewyrchu rolau a chyfrifoldebau cyfredol.	Darparu cysondeb o ran rolau a chyfrifoldebau swyddi ar draws y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc.	Pennaeth Gwasanaeth a'r holl Reolwyr Gwasanaeth	1 Ebrill 2021	30 Mehefin 2021
2	Adolygu'r strategaeth recriwtio bresennol a gweithredu ffyrdd newydd o hysbysebu rolau (gan gynnwys hysbysebion swyddi wedi'u diweddarau, cyfryngau cymdeithasol a hysbysebion fideo).	Mae'r Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc yn hanesyddol wedi ei chael hi'n anodd recriwtio a chadw staff. Er mwyn ei gwneud yn fwy deniadol i bobl, gall defnyddio dulliau amgen helpu i ehangu a denu demograffeg ehangach ar gyfer y gwasanaeth.	Gan weithio gydag Adnoddau Dynol ac Uwch Reolwyr, byddwn yn diweddarau'r mecanweithiau presennol i ddenu pobl i'r gwasanaeth.	Pennaeth Gwasanaeth a'r holl Reolwyr Gwasanaeth	1 Ebrill 2021	30 Medi 2021
3	Datblygu cynllun estynedig i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol gan ystyried yr opsiwn o gynnwys cymorth ar gyfer llwybr y Brifysgol Agored i gymhwyster gwaith cymdeithasol.	Mae angen i'r Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc ehangu opsiynau i'w gwneud yn haws ac yn fwy hyblyg i staff gael y cymwysterau gwaith cymdeithasol angenrheidiol.	Gweithio gyda'r adran hyfforddiant a'r Gwasanaethau Oedolion i adolygu'r cwrs presennol ac ystyried opsiynau ehangu.	Pennaeth Gwasanaeth	1 Ebrill 2021	30 Mehefin 2021

# Rhaglenni a Phrosiectau

Er mwyn cefnogi'r Cynllun Corfforaethol a/neu cyflawni'r dyletswyddau statudol/newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol, mae gwasanaethau yn ymgymryd â rhaglenni a phrosiectau. Isod ceir rhestr o raglenni a phrosiectau newid mawr parhaus sy'n cael eu harwain ar hyn o bryd gan y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc.

Enw'r Rhaglen / Prosiect	Disgrifiad Byr o'r Rhaglen / Prosiect a sut mae'n cefnogi'r Cynllun Corfforaethol.	Amcan(ion) Lles a gefnogir	Thema/Themâu Corfforaethol	Dyddiad Disgwyliedig Cwblhau'r Rhaglen / Prosiect
<b>Cartrefi Preswyl Plant</b>	Cynyddu nifer y lleoliadau i blant sydd ar gael mewn gofal preswyl yng Nghasnewydd drwy ddatblygu darpariaeth ALI. Wrth wneud hynny, gellir gofalu am blant yn lleol a gallant ddatblygu cydnerthedd a chynnal eu cysylltiadau lleol. Mae sicrhau ein bod yn uchelgeisiol wrth ofalu am ein plant yn rhan o'r uchelgais hwn yn ogystal â hyrwyddo'r defnydd gorau o'n hadnoddau. Mae hyn yn cysylltu â datblygiadau rhanbarthol ac yn helpu i ddarparu cymorth i blant sydd â'r lefelau uchaf o fod yn agored i niwed. Y datblygiadau arfaethedig ar gyfer y flwyddyn i ddod yw cartref Rosedale, sy'n agor ym mis Mawrth 2021, y cynigion i ddatblygu'r rhandai yn Rosedale a Fferm Windmill.	Amcan Llesiant 3 - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn	Cymunedau Cryf	Chwarter 4 2022/23
<b>Adolygiad o'r Cartrefi Plant presennol</b>	Mae'r prosiect hwn yn ddatblygiad pellach i wella'r cynnig preswyl mewnol a sicrhau bod yr holl ddarpariaeth o ansawdd addas ac yn cynnig gofal o'r safon uchaf.	Amcan Llesiant 3 - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn	Cymunedau Cryf	Chwarter 4 2021/22
<b>Plant Ar Eu Pen Eu Hunain Yn Ceisio Lloches</b>	Mae ALIau Casnewydd a Chaerdydd wedi cytuno i gefnogi plant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches o'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol. Mae gennym y seilwaith i gefnogi'r plant/pobl ifanc hyn. Er mwyn rheoli'r broses hon mae tîm yn cael ei ddatblygu ac mae'r broses ymgynghori â rhanddeiliaid wedi dechrau. Bydd angen strategaeth gorfforaethol mewn ymateb i ddiwallu anghenion y plant/pobl ifanc hyn.	Amcan Llesiant 3 - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn	Cymunedau Cryf	Chwarter 4 2021/22
<b>Prosesau Amddiffyn Plant</b>	Yn dilyn ymchwil a wnaed gan Barnardo's i adolygu prosesau a phrofiadau amddiffyn plant yng Nghasnewydd, mae grŵp rhanddeiliaid wedi cael y	Amcan Llesiant 3 - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn	Cymunedau Cryf	Chwarter 4 2021/22



Enw'r Rhaglen / Prosiect	Disgrifiad Byr o'r Rhaglen / Prosiect a sut mae'n cefnogi'r Cynllun Corfforaethol.	Amcan(ion) Lles a gefnogir	Thema/Themâu Corfforaethol	Dyddiad Disgwyliedig Cwblhau'r Rhaglen / Prosiect
	dasg o weithredu'r canlyniadau dysgu allweddol i wella dulliau a chanlyniadau partneriaeth i weithwyr proffesiynol a theuluoedd sy'n helpu i gefnogi plant i aros o fewn eu teuluoedd lle bo'n ddiogel i wneud hynny.			
<b>Rhandai Rosedale</b>	Ar hyn o bryd mae datganiad o ddi-ddordeb CGI mewn perthynas â rhandai Rosedale gyda LIC. Byddai angen caniatâd cynllunio a swyddog rheoli prosiectau ar y prosiect hwn. Byddai rhandai ychwanegol yn galluogi'r CDC i gael digon o ofal brys a hefyd yn caniatáu gwerthu lleoliadau ledled Gwent.	Amcan Llesiant 3 - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn	Cymunedau Cryf	Chwarter 4 2021/22
<b>Cynnig i gau Cambridge House</b>	Sicrhau ansawdd a darpariaeth barhaus gofal o ansawdd uchel. Nid yw Cambridge House bellach yn addas ar gyfer cartref plant oherwydd ei leoliad a'i gyflwr.	Amcan Llesiant 3 - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn	Cymunedau Cryf	Chwarter 4 2021/22
<b>Adolygiad Diogelu Unedig Sengl</b>	Arwain ar brosiect Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref i sicrhau bod Adolygiadau Dynladdiad Domestig yn gwella dysgu ymarferwyr ac yn cyfuno ag adolygiadau ymarfer oedolion/plant. Cynhyrchu un ystorfa yng Nghymru ar gyfer pob deiliant dysgu.	Amcan Llesiant 3 - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn	Cymunedau Cryf	Chwarter 4 2021/22
<b>Gwasanaeth Eiriolwyr Trais Domestig Annibynnol (ETDA) Rhanbarthol</b>	Comisiynu'r gwasanaeth ETDA Rhanbarthol ar gontract allanol. Consortia'r trydydd sector i reoli a datblygu ymhellach yr adnodd rhanbarthol a ariennir gan grant VAWDASV Llywodraeth Cymru a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau.	Amcan Llesiant 3 - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn	Cymunedau Cryf	Chwarter 4 2021/22
<b>Model ymateb Camfanteisio ar Blant</b>	Casnewydd yw un o'r Awdurdodau Lleol mwyaf blaenllaw yng Nghymru sy'n ymateb i gamfanteisio drwy weithredu model cyfarfodydd strategaeth amlasiantaethol a Phecyn Cymorth Camfanteisio sydd bellach wedi ymestyn i bob un o'r 5 Awdurdod Lleol yng Ngwent. Gan adeiladu ar y dull amlasiantaethol hwn rydym wedi recriwtio Gwaith Cymdeithasol Camfanteisio i ddarparu cymorth uniongyrchol i fynd i'r afael â chamfanteisio a gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc.	Amcan Llesiant 3 - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn	Cymunedau Cryf	Chwarter 4 2021/22

# Amcanion a Chamau

Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Corfforaethol, mae'r Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc wedi pennu 5 Amcan i'w cyflawni yn 2021/22:

**Amcan 1** - Darparu gwasanaethau effeithiol i helpu plant i aros yn ddiogel gyda'u teuluoedd.

**Amcan 2** - Gwella canlyniadau ar gyfer plant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, gan gynnwys canolbwyntio ar ail-uno'n ddiogel.

**Amcan 3** - Sicrhau bod amrywiaeth o leoliadau ar gael ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

**Amcan 4** - Atal plant a phobl ifanc rhag troseddu ac aildroseddu.

<b>Amcan 1</b>		<b>Darparu gwasanaethau effeithiol i helpu plant i aros yn ddiogel gyda'u teuluoedd.</b>			
<b>Canlyniad(au)'r Amcan</b>		Mae atal ac ymyrryd yn gynnar yn sbardunau allweddol yn Neddf Llesiant y Gwasanaethau Cymdeithasol (DLIGC). Mae gweithio gyda theuluoedd sydd â model sy'n seiliedig ar gryfderau yn rhan annatod o weithio mewn partneriaeth â theuluoedd i gyflawni eu nodau a sicrhau eu bod yn datblygu'r gallu i wrthsefyll er mwyn cefnogi eu plant yn ddiogel a chyflawni eu dyheadau heb ddefnyddio gwasanaethau arbenigol. Mae canolbwyntio ar y gwasanaethau hyn yn allweddol i sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn hapus a'u bod yn rhan annatod o'r gwaith cyffredinol o leihau yn ddiogel niferoedd ein plant sy'n derbyn gofal.			
<b>Pa Amcan(ion) Llesiant y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?</b>		<b>Amcan Llesiant 3</b> – Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn			
<b>Pa Thema/Themâu Corfforaethol y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?</b>		<b>Pobl â Dyhead Cymunedau Cryf</b>			
<b>Rhif Cam Gweithredu</b>	<b>Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:</b>	<b>Canlyniad(au) y Cam Gweithredu</b>	<b>Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu</b>	<b>Dyddiad Dechrau'r Cam Gweithredu</b>	<b>Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig</b>
1	Cwblhau a gweithredu cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru i weithio tuag at leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal	Bydd cyflawni'r holl gamau gweithredu yn yr adran hon yn cefnogi amcan y Gwasanaethau Plant i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal a galluogi atal ac ymyrryd yn gynnar mewn modd effeithiol.	Pennaeth Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc (SJ)	1 Ebrill 2021	31 Mawrth 2022
2	Archwilio opsiynau cynaliadwyedd ar gyfer y Prosiect Ymyrraeth Gynnar o fewn y Tîm Atal ar gyfer y cyfnod ar ôl mis Mawrth 2021.	Sicrhawyd cyllid ar gyfer parhad y prosiect partneriaeth hwn ar gyfer 21/22. Yn aros am gadarnhad ysgrifenedig o gyllid gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.	Rheolwr Gwasanaeth (CRP)	1 Ebrill 2021	31 Mawrth 2022
3	Datblygu darpariaeth ymateb cyflym wrth ddrws ffrynt y Gwasanaethau Plant gan	Mae'r gwasanaeth ymateb cyflym bellach wedi dechrau o fewn y ganolfan ddiogelu ac mae'n cefnogi teuluoedd cyn gynted â	Rheolwr Gwasanaeth (NP)	1 Ebrill 2021	31 Mawrth 2022

<b>Amcan 1</b>		<b>Darparu gwasanaethau effeithiol i helpu plant i aros yn ddiogel gyda'u teuluoedd.</b>			
<b>Canlyniad(au)'r Amcan</b>		Mae atal ac ymyrryd yn gynnar yn sbardunau allweddol yn Neddf Llesiant y Gwasanaethau Cymdeithasol (DLIGC). Mae gweithio gyda theuluoedd sydd â model sy'n seiliedig ar gryfderau yn rhan annatod o weithio mewn partneriaeth â theuluoedd i gyflawni eu nodau a sicrhau eu bod yn datblygu'r gallu i wrthsefyll er mwyn cefnogi eu plant yn ddiogel a chyflawni eu dyheadau heb ddefnyddio gwasanaethau arbenigol. Mae canolbwyntio ar y gwasanaethau hyn yn allweddol i sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn hapus a'u bod yn rhan annatod o'r gwaith cyffredinol o leihau yn ddiogel niferoedd ein plant sy'n derbyn gofal.			
<b>Pa Amcan(ion) Llesiant y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?</b>		<b>Amcan Llesiant 3</b> – Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn			
<b>Pa Thema/Themâu Corfforaethol y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?</b>		<b>Pobl â Dyhead Cymunedau Cryf</b>			
<b>Rhif Cam Gweithredu</b>	<b>Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:</b>	<b>Canlyniad(au) y Cam Gweithredu</b>	<b>Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu</b>	<b>Dyddiad Dechrau'r Cam Gweithredu</b>	<b>Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig</b>
	ddefnyddio'r set sgiliau yn y ddarpariaeth bresennol.	phosibl mewn ffordd ddwys ac uniongyrchol drwy ymyriadau uniongyrchol sydd â'r nod o helpu i gadw teuluoedd gyda'i gilydd. Mae adrodd ar ganlyniadau yn rhan o'r model a chaiff hyn ei werthuso ar ôl cyflawni yn y flwyddyn gyntaf.	Rheolwr Gwasanaeth (DJ)		
4	Gweithio gyda'r Gwasanaeth Llwybr i gefnogi ailuno Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG) â theulu/frindiau.	Bydd cyflawni'r holl gamau gweithredu yn yr adran hon yn cefnogi amcan y Gwasanaethau Plant i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal a galluogi atal ac ymyrryd yn gynnar mewn modd effeithiol. Cyflwyno Cysylltiadau Gydol Oes ar draws y Llwybr	Rheolwr Gwasanaeth (NP)	1 Ebrill 2021	31 Mawrth 2022
5	Cwblhau a chyflawni'r camau y cytunwyd arnynt yn y cynllun gweithredu arolygu ar y cyd ar ôl diogelu	Mae'r pandemig wedi gohirio'r cam gweithredu hwn a bydd yn cael ei ddatblygu ar draws nifer o feysydd, yn enwedig datblygu'r protocol camfanteisio ar blant.	Pennaeth Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc (SJ)	1 Ebrill 2020	30 Medi 2021
6	Cyhoeddir diwygiad y Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus ar Gyfiawnder Teuluol ym mis Gorffennaf 2020. Bydd staff y Gwasanaethau Plant ynghyd â chydweithwyr cyfreithiol yn cymryd rhan yn y strategaeth	Gohiriwyd y cyhoeddiad tan fis Mawrth 2021. Bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar brosesau Gwarcheidiaeth Arbennig, Adran 76, yn ystod y cyfnod cyn-trafodion a Gorchmynion Goruchwylio. Cefnogi plant i aros yn ddiogel gyda'u teuluoedd yw'r prif ganlyniad gyda gwell perfformiad ym maes y llys fel canlyniad eilaidd.	Pennaeth Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc (SJ)	30 Mehefin 2020	31 Mawrth 2022

<b>Amcan 1</b>		<b>Darparu gwasanaethau effeithiol i helpu plant i aros yn ddiogel gyda'u teuluoedd.</b>			
<b>Canlyniad(au)'r Amcan</b>		Mae atal ac ymyrryd yn gynnar yn sbardunau allweddol yn Neddf Llesiant y Gwasanaethau Cymdeithasol (DLIGC). Mae gweithio gyda theuluoedd sydd â model sy'n seiliedig ar gryfderau yn rhan annatod o weithio mewn partneriaeth â theuluoedd i gyflawni eu nodau a sicrhau eu bod yn datblygu'r gallu i wrthsefyll er mwyn cefnogi eu plant yn ddiogel a chyflawni eu dyheadau heb ddefnyddio gwasanaethau arbenigol. Mae canolbwyntio ar y gwasanaethau hyn yn allweddol i sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn hapus a'u bod yn rhan annatod o'r gwaith cyffredinol o leihau yn ddiogel niferoedd ein plant sy'n derbyn gofal.			
<b>Pa Amcan(ion) Llesiant y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?</b>		<b>Amcan Llesiant 3</b> – Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn			
<b>Pa Thema/Themâu Corfforaethol y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?</b>		<b>Pobl â Dyhead Cymunedau Cryf</b>			
<b>Rhif Cam Gweithredu</b>	<b>Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:</b>	<b>Canlyniad(au) y Cam Gweithredu</b>	<b>Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu</b>	<b>Dyddiad Dechrau'r Cam Gweithredu</b>	<b>Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig</b>
	weithredu ar gyfer cyflwyno'r newidiadau				
7	Datblygu model cynaliadwy i ddarparu ymateb cyson, cydgysylltiedig, lleol ac amlasiantaethol i ddiogelu, atal ac ymyrryd yn gynnar ar gyfer pob oedran, wrth ddrws ffrynt y Gwasanaethau Plant. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys ystyried systemau, prosesau ac adnoddau asiantaethau partner i ddatblygu model sy'n adlewyrchu cyfraniadau gan asiantaethau allweddol.	Bydd cyflawni'r holl gamau gweithredu yn yr adran hon yn cefnogi amcan y Gwasanaethau Plant i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal a galluogi atal ac ymyrryd yn gynnar mewn modd effeithiol.	Rheolwr Gwasanaeth (NP)	1 Ebrill 2021	31 Mawrth 2022
8	Ystyried y trywydd ar gyfer y gwasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar yn y dyfodol gan edrych ar fodolau darparu amgen	Cyflawnir dull ansoddol a chyson o ymdrin â gwasanaethau cymorth cynnar ar draws holl gymunedau Casnewydd, gan ymgorffori safon uchel o arferion diogelu a chanlyniadau gwell i deuluoedd a phlant.	Rheolwr Gwasanaeth (CRP)	1 Ebrill 2021	31 Mawrth 2023
9	Prosiect Peilot yng nghlwstwr Llanwern sy'n mynd i'r afael â	Cael tystiolaeth leol i gefnogi symud tuag at newid system ac ymateb i blant yn wahanol	Rheolwr Gwasanaeth (CRP)	1 Ebrill 2021	31 Mawrth 2023

<b>Amcan 1</b>		<b>Darparu gwasanaethau effeithiol i helpu plant i aros yn ddiogel gyda'u teuluoedd.</b>			
<b>Canlyniad(au)'r Amcan</b>		Mae atal ac ymyrryd yn gynnar yn sbardunau allweddol yn Neddf Llesiant y Gwasanaethau Cymdeithasol (DLIGC). Mae gweithio gyda theuluoedd sydd â model sy'n seiliedig ar gryfderau yn rhan annatod o weithio mewn partneriaeth â theuluoedd i gyflawni eu nodau a sicrhau eu bod yn datblygu'r gallu i wrthsefyll er mwyn cefnogi eu plant yn ddiogel a chyflawni eu dyheadau heb ddefnyddio gwasanaethau arbenigol. Mae canolbwyntio ar y gwasanaethau hyn yn allweddol i sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn hapus a'u bod yn rhan annatod o'r gwaith cyffredinol o leihau yn ddiogel niferoedd ein plant sy'n derbyn gofal.			
<b>Pa Amcan(ion) Llesiant y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?</b>		<b>Amcan Llesiant 3</b> – Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn			
<b>Pa Thema/Themâu Corfforaethol y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?</b>		<b>Pobl â Dyhead Cymunedau Cryf</b>			
<b>Rhif Cam Gweithredu</b>	<b>Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:</b>	<b>Canlyniad(au) y Cam Gweithredu</b>	<b>Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu</b>	<b>Dyddiad Dechrau'r Cam Gweithredu</b>	<b>Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig</b>
	gwaharddiadau ysgol a'i gysylltiad â throeddu a cham-fanteisio				
10	Mecanwaith Cenedlaethol Atgyfeirio	Mae Casnewydd wedi bod yn llwyddiannus yn ddiweddar mewn ymgais i gynnal penderfyniadau lleol ar gyfer achosion Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol lle mae plant yn cael eu masnachu a'u hecsbloetio. Bydd hyn yn galluogi asiantaethau lleol sy'n deall anghenion pobl ifanc yng Ngwent i wneud penderfyniadau ar eu rhan a sicrhau eu bod yn cael y cymorth priodol mewn modd amserol.	Rheolwr Gwasanaeth (DJ)	1 Ebrill 2021	31 Mawrth 2022
11	Parhau â'r gwaith a ddechreuwyd gyda Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent i leoli staff amlasiantaethol gyda thimau rheng flaen		Rheolwr Gwasanaeth (DJ)	1 Ebrill 2020	31 Mawrth 2022
12	Gweithio gyda chydweithwyr yn y gwasanaethau cyfreithiol i ddatblygu set gytûn o restrau gwirio i wella dulliau a rennir o ymdrin â gweithrediadau cyn achos, Amlinelliad o Gyfraith		Rheolwr Gwasanaeth (DJ)	1 Ebrill 2019	31 Mawrth 2022

<b>Amcan 1</b>		<b>Darparu gwasanaethau effeithiol i helpu plant i aros yn ddiogel gyda'u teuluoedd.</b>			
<b>Canlyniad(au)'r Amcan</b>		Mae atal ac ymyrryd yn gynnar yn sbardunau allweddol yn Neddf Llesiant y Gwasanaethau Cymdeithasol (DLIGC). Mae gweithio gyda theuluoedd sydd â model sy'n seiliedig ar gryfderau yn rhan annatod o weithio mewn partneriaeth â theuluoedd i gyflawni eu nodau a sicrhau eu bod yn datblygu'r gallu i wrthsefyll er mwyn cefnogi eu plant yn ddiogel a chyflawni eu dyheadau heb ddefnyddio gwasanaethau arbenigol. Mae canolbwyntio ar y gwasanaethau hyn yn allweddol i sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn hapus a'u bod yn rhan annatod o'r gwaith cyffredinol o leihau yn ddiogel niferoedd ein plant sy'n derbyn gofal.			
<b>Pa Amcan(ion) Llesiant y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?</b>		<b>Amcan Llesiant 3</b> – Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn			
<b>Pa Thema/Themâu Corfforaethol y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?</b>		<b>Pobl â Dyhead Cymunedau Cryf</b>			
<b>Rhif Cam Gweithredu</b>	<b>Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:</b>	<b>Canlyniad(au) y Cam Gweithredu</b>	<b>Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu</b>	<b>Dyddiad Dechrau'r Cam Gweithredu</b>	<b>Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig</b>
	Gyhoeddus, a chyfarfodydd cyfreithiol.				
13	Monitro effeithiolrwydd Cynadledda Grwpiau Teuluol (CGT).		Rheolwr Gwasanaeth (DJ)	1 Ionawr 2020	31 Mawrth 2022

<b>Amcan 2</b>		<b>Gwella canlyniadau i blant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, gan gynnwys canolbwyntio ar ail-uno'n ddiogel.</b>			
<b>Canlyniad(au)'r Amcan</b>		Bydd plant sy'n dechrau derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal wedi profi anfantais gynnar a thrawma sylweddol. Fel plant sy'n derbyn gofal dylent elwa o rianta corfforaethol sy'n sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd da ar gael iddynt i wella eu dewisiadau bywyd a sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu potensial. Rhaid i feysydd allweddol bywydau cartref, addysg, iechyd, gweithgareddau hamdden a phontio i fyd oedolion fod yn rhan o'r agenda rhianta corfforaethol. Fel rhan o'r amcan hwn, cefnogi ailuno lle mae bod yn ddiogel yn hanfodol. Ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal, bydd Uchelgeisiau Cudd a gyhoeddir gan y Comisiynydd Plant yn sail i'r camau gweithredu.			
<b>Pa Amcan(ion) Llesiant y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?</b>		<b>Amcan Llesiant 3</b> – Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn			
<b>Pa Thema/Themâu Corfforaethol y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?</b>		<b>Pobl â Dyhead Cymunedau Cryf</b>			
<b>Rhif Cam Gweithredu</b>	<b>Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:</b>	<b>Canlyniad(au) y Cam Gweithredu</b>	<b>Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu</b>	<b>Dyddiad Dechrau'r Cam Gweithredu</b>	<b>Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig</b>
1	Mwy o opsiynau tai ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal. Ar hyn o bryd, mae gan Gasnewydd ystod	Bydd yr holl gamau gweithredu yn yr adran hon yn cyfrannu at wella	Rheolwr Gwasanaeth (NP)	1 Ebrill 2021	31 Mawrth 2022



<b>Amcan 2</b>		<b>Gwella canlyniadau i blant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, gan gynnwys canolbwyntio ar ail-uno'n ddiogel.</b>			
<b>Canlyniad(au)'r Amcan</b>		Bydd plant sy'n dechrau derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal wedi profi anfantais gynnar a thrawma sylweddol. Fel plant sy'n derbyn gofal dylent elwa o rianta corfforaethol sy'n sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd da ar gael iddynt i wella eu dewisiadau bywyd a sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu potensial. Rhaid i feysydd allweddol bywydau cartref, addysg, iechyd, gweithgareddau hamdden a phontio i fyd oedolion fod yn rhan o'r agenda rianta corfforaethol. Fel rhan o'r amcan hwn, cefnogi ailuno lle mae bod yn ddiogel yn hanfodol. Ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal, bydd Uchelgeisiau Cudd a gyhoeddir gan y Comisiynydd Plant yn sail i'r camau gweithredu.			
<b>Pa Amcan(ion) Llesiant y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?</b>		<b>Amcan Llesiant 3</b> – Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn			
<b>Pa Thema/Themâu</b> Corfforaethol y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?		<b>Pobl â Dyhead Cymunedau Cryf</b>			
<b>Rhif Cam Gweithredu</b>	<b>Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:</b>	<b>Canlyniad(au) y Cam Gweithredu</b>	<b>Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu</b>	<b>Dyddiad Dechrau'r Cam Gweithredu</b>	<b>Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig</b>
	gyfyngedig o ddewisiadau ar gyfer tai i'r rhai sy'n gadael gofal, yn enwedig rhai gydag amrywiaeth o gymorth addas. Bydd y cam gweithredu hwn yn ceisio mynd i'r afael â'r bwlch hwn. Mae gwaith eisoes wedi dechrau a bydd yn parhau.	canlyniadau i blant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal.			
2	Parhau i ddatblygu ystod o opsiynau i'r Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG) gymryd rhan mewn profiad gwaith a chael cynnig mentor.		Rheolwr Gwasanaeth (NP)	1 Ebrill 2021	31 Mawrth 2022
3	Gweithio gyda'r Gwasanaeth Llwybr a rhanddeiliaid i sicrhau bod pob PDG yn cael cynnig cyfleoedd i ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn trosglwyddo i fyw'n annibynnol yn llwyddiannus.		Rheolwr Gwasanaeth (NP)	1 Ebrill 2021	31 Mawrth 2022

<b>Amcan 2</b>		<b>Gwella canlyniadau i blant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, gan gynnwys canolbwyntio ar ail-uno'n ddiogel.</b>			
<b>Canlyniad(au)'r Amcan</b>		Bydd plant sy'n dechrau derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal wedi profi anfantais gynnar a thrawma sylweddol. Fel plant sy'n derbyn gofal dylent elwa o rianta corfforaethol sy'n sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd da ar gael iddynt i wella eu dewisiadau bywyd a sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu potensial. Rhaid i feysydd allweddol bywydau cartref, addysg, iechyd, gweithgareddau hamdden a phontio i fyd oedolion fod yn rhan o'r agenda rianta corfforaethol. Fel rhan o'r amcan hwn, cefnogi ailuno lle mae bod yn ddiogel yn hanfodol. Ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal, bydd Uchelgeisiau Cudd a gyhoeddir gan y Comisiynydd Plant yn sail i'r camau gweithredu.			
<b>Pa Amcan(ion) Llesiant y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?</b>		<b>Amcan Llesiant 3</b> – Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn			
<b>Pa Thema/Themâu Corfforaethol y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?</b>		<b>Pobl â Dyhead Cymunedau Cryf</b>			
<b>Rhif Cam Gweithredu</b>	<b>Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:</b>	<b>Canlyniad(au) y Cam Gweithredu</b>	<b>Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu</b>	<b>Dyddiad Dechrau'r Cam Gweithredu</b>	<b>Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig</b>
4	Gweithio i'r canllawiau diwygiedig ar gyfer Rhianta Corfforaethol gan Lywodraeth Cymru (a ddisgwyliir yn haf 2020) gyda'r Fforwm Rhianta Corfforaethol a phartneriaid eraill o bosibl i feithrin dealltwriaeth o gyfrifoldeb a rennir.	Mae canllawiau diwygiedig wedi'u gohirio a byddant bellach yn cael eu cyhoeddi yn ystod 2021.	Pennaeth Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc (SJ)  Dirprwy Reolwr Tîm (JB)	1 Mehefin 2020	31 Mawrth 2022
5	Yng ngoleuni'r dysgu yn ystod y cyfnod cloi, byddwn yn adolygu ein trefniadau presennol ar gyfer amser teuluol er mwyn gwella'r cynnig i blant a theuluoedd: i) Datblygu fframwaith cynhwysfawr o bob agwedd ar amser teulu; Parhau i ddarparu amser teuluol yn rhithwir fel rhywbeth cadarnhaol i deuluoedd.	Mae Amser Teulu (cyswllt) wedi'i gyflawni'n llwyddiannus yn ystod y pandemig gyda staff a theuluoedd yn cael cymorth i sicrhau bod y gwasanaeth wedi parhau er gwaethaf y cyfyngiadau cloi. Disgwyliir i Bolisi ar gyfer cyflwyno'r gwasanaeth gael ei gwblhau gan ganolbwyntio ar ystyried a diwallu anghenion pob plentyn unigol.	Rheolwr Gwasanaeth (DJ)	1 Ebrill 2021	31 Hydref 2021
6	Edrychodd y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (SGC) a Phartneriaeth Plant a Theuluoedd Gwent ar wahanol fodelau o ofal iechyd		Rheolwr Gwasanaeth (NP)	1 Ebrill 2021	31 Mawrth 2022

<b>Amcan 2</b>		<b>Gwella canlyniadau i blant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, gan gynnwys canolbwyntio ar ail-uno'n ddiogel.</b>			
<b>Canlyniad(au)'r Amcan</b>		Bydd plant sy'n dechrau derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal wedi profi anfantais gynnar a thrawma sylweddol. Fel plant sy'n derbyn gofal dylent elwa o rianta corfforaethol sy'n sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd da ar gael iddynt i wella eu dewisiadau bywyd a sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu potensial. Rhaid i feysydd allweddol bywydau cartref, addysg, iechyd, gweithgareddau hamdden a phontio i fyd oedolion fod yn rhan o'r agenda rianta corfforaethol. Fel rhan o'r amcan hwn, cefnogi ailuno lle mae bod yn ddiogel yn hanfodol. Ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal, bydd Uchelgeisiau Cudd a gyhoeddir gan y Comisiynydd Plant yn sail i'r camau gweithredu.			
<b>Pa Amcan(ion) Llesiant y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?</b>		<b>Amcan Llesiant 3</b> – Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn			
<b>Pa Thema/Themâu</b> Corfforaethol y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?		<b>Pobl â Dyhead Cymunedau Cryf</b>			
<b>Rhif Cam Gweithredu</b>	<b>Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:</b>	<b>Canlyniad(au) y Cam Gweithredu</b>	<b>Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu</b>	<b>Dyddiad Dechrau'r Cam Gweithredu</b>	<b>Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig</b>
	meddwl i blant sy'n derbyn gofal ag anghenion cymhleth a phenderfynodd mai'r model Mhyst oedd y mwyaf effeithiol i'w gyflwyno ledled Gwent. Cytunwyd ar hyn fel maes blaenoriaeth, oherwydd y canlyniadau gwael i'r grŵp penodol hwn a hefyd cost gofal preswyl preifat. Mae'r tîm bellach wedi'i benodi a bydd angen i'r model gael ei ymgorffori a'i gefnogi gan y Gwasanaethau Plant a rhanddeiliaid eraill.				

<b>Amcan 3</b>		<b>Sicrhau bod amrywiaeth o leoliadau ar gael ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.</b>			
<b>Canlyniad(au)'r Amcan</b>		Mae gan Gasnewydd gymysgedd o wasanaethau preswyl mewnol a gwasanaethau a gomisiynir yn allanol. Mae Casnewydd mewn sefyllfa wahanol iawn i'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol gan fod ganddi 3 chartref preswyl ac 1 cyfleuster seibiant byr i blant ag anableddau. Er bod gan Gasnewydd adnoddau preswyl mewnol ac ystod dda o leoliadau maethu bu angen comisiynu darpariaeth breswyl a maethu allanol hefyd. Mae'r lleoliadau hyn ar gyfer cymysgedd o blant sydd ag ymddygiad cymhleth a heriol, ymddygiadau peryglus a lleoliadau ar gyfer plant ag anableddau sylweddol. Mae prinder lleoliadau wedi arwain at farchnad darparwyr cryf iawn gyda chanlyniadau gwael ar y cyfan i blant. Mae'r gwaith hwn o dan yr amcan hwn yn ceisio ehangu'r ddarpariaeth lleoliadau mewnol a gwella ansawdd y lleoliad a gynigir.			
<b>Pa Amcan(ion) Llesiant y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?</b>		<b>Amcan Llesiant 3</b> - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn			
<b>Pa Thema/Themâu</b> Corfforaethol y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?		<b>Pobl â Dyhead Cymunedau Cryf</b>			
<b>Rhif Cam Gweithredu</b>	<b>Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:</b>	<b>Canlyniad(au) y Cam Gweithredu</b>	<b>Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu</b>	<b>Dyddiad Dechrau'r Cam Gweithredu</b>	<b>Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig</b>
1	Parhau i ddatblygu'r ddarpariaeth breswyl (gan gynnwys Fferm Windmill) ledled Casnewydd er mwyn cynyddu nifer y plant y gellir gofalu amdanynt yn ddiogel yng Nghasnewydd	Hyrwyddo dychwelyd plant maeth y tu allan i'r Sir i Gasnewydd. Bydd y cartrefi newydd hyn yn cynyddu nifer y lleoliadau sydd ar gael i Blant Casnewydd a hefyd yn caniatáu y posibilrwydd o 'werthu' lleoliadau i ALI eraill Gwent.	Rheolwr Gwasanaeth (JL)	1 Ebrill 2019	31 Mawrth 2022
4	Gweithio gyda MyST a'r Tîm Maethu i ddatblygu dull ar y cyd o gefnogi gofalwyr maeth a phlant sy'n derbyn gofal.	Dylai hyn atal methiant o ran y lleoliadau a chynyddu nifer y plant mewn lleoliadau sefydlog	Rheolwr Gwasanaeth (JL)	1 Gorffennaf 2020	31 Gorffennaf 2021
5	Datblygu darpariaeth Pan Fydda i'n Barod (PFIB) CDC ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal ac adolygu'r ddarpariaeth Llety â Chymorth (LICH) i sicrhau cysondeb	Cynnydd mewn lleoliadau PFIB priodol a wneir. Mae'r cymorth, y polisïau a'r prosesau ar waith yn glir i'r holl randdeiliaid. Mae eglurder o ran lleoliadau a chefnogaeth LICH.	Rheolwr Gwasanaeth (JL)	1 Ebrill 2021	31 Mawrth 2022

<b>Amcan 4</b>		<b>Atal plant a phobl ifanc rhag troseddu ac aildroseddu.</b>			
<b>Canlyniad(au)'r Amcan</b>		Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid (GCI) yn bartneriaeth ar draws ystod o wasanaethau o fewn y Cyngor, ac yn ehangach gydag asiantaethau eraill. Mae'r ddarpariaeth wedi'i gosod allan fel allwedd i atal troseddu ac aildroseddu gan blant a phobl ifanc. Mae'r gwasanaeth yn cynnig amrywiaeth o ymyriadau ac yn cyflawni yn erbyn gofynion y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid a'r system cyfiawnder troseddol. Rheolwr gwasanaeth y GCI a Phenfaeth y Gwasanaethau Plant gyda'r Bwrdd Rheoli Lleol sy'n gyfrifol am gyflawni'r cynllun.			
<b>Pa Amcan(ion) Llesiant y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?</b>		<b>Amcan Llesiant 4</b> - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn			
<b>Pa Thema/Themâu Corfforaethol y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?</b>		Ddim yn berthnasol			
<b>Rhif Cam Gweithredu</b>	<b>Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:</b>	<b>Canlyniad(au) y Cam Gweithredu</b>	<b>Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu</b>	<b>Dyddiad Dechrau'r Cam Gweithredu</b>	<b>Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig</b>
1	Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid i ymgysylltu ar faterion cyfiawnder Ieuencid lleol a chenedlaethol gan ystyried datblygu gwasanaethau pellach yn unol â glasbrint Llywodraeth Cymru.	Mae'r holl gamau gweithredu yn yr adran hon yn gweithio tuag at atal troseddu ac aildroseddu.	Rheolwr Gwasanaeth (CRP)	1 Ebrill 2021	31 Mawrth 2022
2	Datblygu ymhellach y cymorth a ddarperir gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid gan ymgorffori gwaith atal ac ymyrryd yn gynnar cadarn, a gwaith trawsnewid gwasanaethau yn y dyfodol.	Mae cymorth cyfannol ac amserol ar gael i bob plentyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth gan dîm aml-asiantaeth ac wedi'i gynnwys yn eu cynlluniau ymyrraeth.  Gwell dealltwriaeth o risgiau cyd-destunol sy'n effeithio ar y plentyn.	Rheolwr Gwasanaeth (CRP)	1 Ebrill 2021	31 Mawrth 2022
3	Adeiladu ar waith Cyd-destunol ar niwed a cham-fanteisio, ymchwil ar ddiogelu, a sefydlu dulliau newydd o ddeall, ac ymateb i brofiadau o bwys i bobl ifanc	Gweithiwr arweiniol ar Ddiogelu Cyd-destunol i gynnal Asesiadau Cymunedol gyda phartneriaid allweddol.  Sefydlu cysylltiadau cadarn ar draws y gwasanaethau plant i rannu dysgu a dulliau.	Rheolwr Gwasanaeth (CRP)	1 Ebrill 2019	31 Rhagfyr 2021

# Mesurau Perfformiad

Mae mesurau perfformiad Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc yn cael eu cymryd o Fframwaith Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Ni fydd targedau'n cael eu gosod ar gyfer y mesurau hyn yn 2021/22. Defnyddir data blynyddoedd blaenorol fel 'cymharydd' i alluogi monitro ac adrodd.

Mesur Perfformiad (Gwybodaeth Reoli Genedlaethol / Leol)	Targed 2020/21	Perfformiad Gwirioneddol 2020/21	Perfformiad Gwirioneddol 2019/20	Perfformiad Gwirioneddol 2018/19
<b>Cenedlaethol (NEWYDD) CH/001</b> - Nifer y cysylltiadau ar gyfer plant a dderbynnir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn.	I'w gadarnhau	10,104	Ddim ar gael	Ddim ar gael
<b>Cenedlaethol (NEWYDD) CH/005b</b> - Y nifer lle'r oedd cosb gorfforol gan riant neu ofalwr yr <b>unig</b> ffactor. <i>Sylwer: Mesur a ohiriwyd oherwydd Covid 19</i>	I'w gadarnhau	144	Ddim ar gael	Ddim ar gael
<b>Cenedlaethol (NEWYDD) CH/009b</b> - Derbyniwyd Cynnig Gweithredol y Gymraeg (Yn ystod asesiad)	I'w gadarnhau	0	Ddim ar gael	Ddim ar gael
<b>Cenedlaethol (NEWYDD) CH/015</b> - Cyfanswm nifer y plant â chynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth.	I'w gadarnhau	978	Ddim ar gael	Ddim ar gael
<b>Cenedlaethol (NEWYDD) CH/036</b> - Cyfanswm nifer y plant a dynnwyd (dadgofrestru) o'r gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn	I'w gadarnhau	148	Ddim ar gael	Ddim ar gael
<b>Cenedlaethol CH/L01</b> - Cyfanswm nifer y plant a gofrestrwyd ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y 12 mis diwethaf	I'w gadarnhau	179	Ddim ar gael	Ddim ar gael
<b>Cenedlaethol CH/026</b> - Cyfanswm nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant ar 31 Mawrth.	I'w gadarnhau	158	128	339
<b>Cenedlaethol (NEWYDD) - CH/033</b> Cyfanswm nifer yr adroddiadau ar gam-fanteisio ar blant a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn <i>Sylwer: Mesur a ohiriwyd oherwydd Covid 19</i>	I'w gadarnhau	62	Ddim ar gael	Ddim ar gael
<b>Cenedlaethol (NEWYDD) CH/037</b> - Nifer y plant sy'n dechrau derbyn gofal yn ystod y flwyddyn	I'w gadarnhau	91	Ddim ar gael	Ddim ar gael
<b>Lleol (NEWYDD) - CH/L002</b> - Nifer y Plant a Beidiodd bod yn Blant sy'n Derbyn Gofal yn ystod y flwyddyn	I'w gadarnhau	92	Ddim ar gael	Ddim ar gael
<b>Cenedlaethol CH/043</b> - Cyfanswm nifer y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi profi tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn	I'w gadarnhau	26	126	178
<b>Cenedlaethol CH/045</b> - Cyfanswm nifer y plant a ddychwelodd adref yn ystod y flwyddyn	I'w gadarnhau	36	Ddim ar gael	Ddim ar gael



<b>Mesur Perfformiad</b> (Gwybodaeth Reoli Genedlaethol / Leol)	<b>Targed 2020/21</b>	<b>Perfformiad Gwirioneddol 2020/21</b>	<b>Perfformiad Gwirioneddol 2019/20</b>	<b>Perfformiad Gwirioneddol 2018/19</b>
<b>Cenedlaethol (NEWYDD) CA/010</b> - Cyfanswm nifer y cysylltiadau â'r gwasanaethau cymdeithasol statudol gan ofalwyr ifanc neu weithwyr proffesiynol sy'n cysylltu â'r gwasanaeth ar eu rhan a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn. Darparwyd gan Barnardos	I'w gadarnhau	74	Ddim ar gael	Ddim ar gael
<b>Cenedlaethol (NEWYDD) CH/L003</b> – Nifer y Gofalwyr Maeth sydd wedi cofrestru gyda'r Awdurdod Lleol (gan gynnwys gofal gan Berthynas, Llety â Chymorth, Cyffredinol a Seibiant)	I'w gadarnhau	159	Ddim ar gael	Ddim ar gael
<b>Cenedlaethol (NEWYDD) CH/L004</b> – Nifer y Gwelyau Maethu Preswyl i Blant	I'w gadarnhau	21	Ddim ar gael	Ddim ar gael
<b>Cenedlaethol (NEWYDD) CH/L005</b> – Nifer y Plant mewn achosion gofal yn ystod y flwyddyn	I'w gadarnhau	44	Ddim ar gael	Ddim ar gael
<b>Cenedlaethol CH/039</b> Nifer y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth.	I'w gadarnhau	378	382	372
<b>Lleol (Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid)</b> - % y bobl ifanc mewn llety addas ar ddiwedd gorchymyn statudol.	95%	92.3%	96.9%	Ddim ar gael
<b>Lleol (Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid)</b> – Oriau 'Ôl-16' cyfartalog ar Ddiwedd Ymyrraeth	15 awr	Ddim ar gael	14.4 awr	Ddim ar gael
<b>Lleol (Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid)</b> - Nifer cyfartalog yr oriau y mae plant 'Oedran Ysgol' yn eu mynychu ar ddiwedd Ymyrraeth.	17 awr	Ddim ar gael	16.7 awr	Ddim ar gael
<b>Lleol (Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid)</b> – Cyfanswm Nifer y Newydd-ddyfodiaid Tro cyntaf	20	40	25	Ddim ar gael
<b>Lleol (Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid)</b> - % yr holl achosion sy'n ddatrysiadau cymunedol.	70%	52.56%	62.58%	Ddim ar gael

## Geirfa

Cenedlaethol – Casglwyd ac adroddwyd i sefydliad allanol fel Llywodraeth Cymru / Estyn / CLILC ac ati i feincodi / cymharu

Lleol – wedi'i gasglu a'i adrodd yn benodol gan CDC / Gwasanaeth i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcan.

Gwybodaeth Reoli – Casglwyd ac adroddwyd i gefnogi'r gwaith o ddarparu gweithgaredd a/neu wasanaeth penodol.

# Rheoli Risg

Enw'r Risg	Perchennog y Risg (Teitl y Swydd)	Risg Gorfforaethol neu Risg Gwasanaeth
<p><b>Pwysau ar Ddarparu Gwasanaethau Plant</b></p> <p>Mwy o bwysau ar y Gwasanaethau Plant i reoli cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau / achosion o blant ag anghenion cymhleth. Mae hyn yng nghyd-destun cyllidebau nad ydynt yn gallu talu cynnydd mewn costau er mwyn darparu'r gofal angenrheidiol a bod staff rheng flaen yn gallu rheoli llwythi achosion cymhleth a chymhleth. Wrth fynd i 2021/22 bydd angen ystyried y potensial ar gyfer colli CGI gan y byddai hyn yn effeithio'n sylweddol ar ddarparu gwasanaethau mewn nifer o feysydd allweddol.</p>	<p>Pennaeth Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc</p>	<p>Risg Gorfforaethol</p>
<p><b>Risg Diogelu</b></p> <p>Sicrhau bod y Cyngor yn diogelu oedolion, plant a gofalwyr fel rhan o'i ddyletswydd statudol.</p>	<p>Pennaeth Diogelu Corfforaethol</p>	<p>Risg Gorfforaethol</p>
<p><b>Achosion Llys Teulu</b></p> <p>O ganlyniad i Covid 19 mae oedi yn y llysoedd yn dod i'r amlwg. Mae'r gofynion ar gyfer cadw pellter cymdeithasol yn golygu y bydd llysoedd yn parhau i ymgodymu ag oedi tebygol am fisoedd lawer. Mae risg sylweddol o achosion llys cynyddol a hirfaith. Daw hyn â chost ychwanegol i'r gwasanaethau cymdeithasol a chyfreithiol ac mae'n rhoi mwy o straen ar y timau.</p>	<p>Pennaeth Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc</p>	<p>Risg i Wasanaeth</p>